



Credydau Amser Tempo

Goblygiadau Treth – Cwestiynau Cyffredin

☎ 029 2056 6132 ✉ hello@wearetempo.org 🖱 wearetempo.org

🐦 [@tempo_tweets](https://twitter.com/tempo_tweets) 📺 [timecredits](https://www.facebook.com/timecredits)

Tempo

A all ymddiriedolwr elusen ennill Credydau Amser Tempo fel cydnabyddiaeth am wirfoddoli?

Os ydych yn ymddiriedolwr elusen sydd yn mwynhau gwirfoddoli ac eisiau ennill Credydau Amser Tempo, mae'n bosib i chi wneud!

Cyn belled nac ydych yn derbyn Credydau Amser Tempo am eich dyletswyddau ar y bwrdd ymddiriedolwyr does dim problem. Gallwch wirfoddoli eich amser a derbyn Credydau Amser Tempo cyn belled a bod eich gweithgaredd gwirfoddoli ar wahan i'ch rol fel ymddiriedolwr.

A all gweithiwr elusen, sydd hefyd yn gwirfoddoli ar gyfer yr un elusen, dderbyn Credydau Amser Tempo?

Os ydych chi'n digwydd cael eich cyflogi gan elusen a'ch bod hefyd yn gwirfoddoli i'r elusen honno, nid oes problem derbyn Credydau Amser Tempo, cyn belled nad yw'r gwaith gwirfoddoli yn amlwg yn rhan o'ch dyletswyddau neu oriau cyflogaeth.

A all gweithiwr sydd yn gwirfoddoli gyda elusen arall dderbyn Credydau Amser Tempo?

Gallant! Os ydych wedi eich cyflogi gan elusen a hoffech wirfoddoli gyda sefydliad arall, mae hynny'n iawn. Gallwch chi gyflawni'r gweithgaredd gwirfoddol hwn cyn belled nad ydych chi'n derbyn unrhyw fuddion mewn nwyddau, er enghraifft, amser i ffwrdd yn lle. Os nad ydych yn derbyn unrhyw fuddion mewn nwyddau gallwch dderbyn Credydau Amser Tempo.

Faint o Credydau Amser Tempo gall gwirfoddolwr dderbyn ar gyfer ei hamser yn gwirfoddoli?

Mae Credydau Amser Tempo yn argymhell bod gwirfoddolwyr yn cael eu cyfyngu i 4/5 Credyd Amser pob wythnos. Byddwn yn annog bob person sydd yn derbyn Credydau Amser Tempo i gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau gwirfoddol, ac osgoi gwneud yr un gweithgaredd gwirfoddol yn barhaus.

Sut mae derbyn Credydau Amser Tempo yn effeithio fy mudd-daliadau?

Os dilynwch yr arweiniad uchod am dderbyn Credydau Amser Tempo ddylai fod dim effaith ar eich budd-daliadau oherwydd nid arian cyfred yw Credydau Amser Tempo ac nid ydynt yn dâl ar gyfer gwaith gwirfoddol. Maent yn gydnabyddiaeth o'ch rhodd i'r gymuned. Fel gwirfoddolwyr nid ydych o dan gcontract gwaith, felly dydi derbyn Credydau Amser Tempo ddim yn fudd-daliada o unrhyw fath.



Pa weithgareddau gwirfoddoli sydd wedi'u heithrio o Gredydau Amser Tempo?

Er ein bod am i'r nifer fwyaf o bobl a phosib ennill Credydau Amser Tempo, mae rhai eithriadau i bwy sydd yn gallu ei derbyn.

Os ydych yn aelod o fwrdd ymddiriedolwyr ni fyddwch yn gallu ennill Credydau Amser Tempo ar gyfer eich dyletwsyddau cyffredinol fel ymddiriedolwr.

Os ydych yn aelod o staff, ni fydd unrhyw weithgaredd gwirfoddol a fyddai'n cael ei ystyried fel rhan o'ch dyletswyddau gwaith, yn gymwys i dderbyn Credydau Amser Tempo.

Gallwch ond derbyn Credydau Amser Tempo os yn gwirfoddoli gyda grŵp sydd yn gweithio gyda Credydau Amser Tempo.

